


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

## Beth sy'n newid?

Hoffem drawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

I wneud hyn, rydym wedi datblygu rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a fydd yn gweddnewid y systemau gwahanol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion ac ar gyfer anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach, er mwyn creu system unedig i gefnogi dysgwyr ADY o 0 hyd at 25 oed.

Bydd y system, ar ei newydd wedd, yn:

- sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn cyflawni ei lawn botensial
- gwella'r broses o gynllunio a chyflwyno cymorth i ddysgwyr o 0 hyd at 25 oed sydd ag ADY, gan roi anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r dysgwyr wrth wraidd y broses
- canolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ac effeithiol ar waith sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir.

Dim ond un agwedd ar y pecyn o newidiadau ehangach sydd eu hangen yw'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol newydd, ond agwedd bwysig iawn serch hynny. Mae'r rhaglen trawsnewid system ADY hefyd yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau'r gweithlu addysg, er mwyn darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â sicrhau mynediad haws at gymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol.

## Pam mae'n newid

Rydym yn benderfynol o gyflwyno system addysg sy'n gwbl gynhwysol i ddysgwyr yng Nghymru. System lle mae anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, lle mae proses yn ei lle i fynd i'r afael â'r anghenion hynny'n gyflym a lle mae pob dysgwr yn cael cymorth i gyflawni ei botensial.

Mae gan oddeutu 23 y cant o'r holl ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru AAA. Ar y cyfan, mae cyrhaeddiad academaidd dysgwyr sydd ag AAA yn wael o gymharu â dysgwyr eraill.

O dan y system newydd, bydd gwaith cynllunio yn hyblyg ac yn ymateb i sefyllfaoedd penodol, bydd gan ein gweithwyr proffesiynol y sgiliau gofynnol a byddant yn hyderus wrth nodi anghenion a datblygu strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau i ddysgu, a bydd y dysgwr yn ganolog i bopeth a wnawn.

## Sut mae'n newid

Er mwyn gweithredu'n effeithiol, cefnogi'r broses bontio a chyflwyno'r system newydd, bydd y rhaglen trawsnewid system ADY yn canolbwyntio ar y pum thema ganlynol.

# 1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol

Cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017 a daeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Bydd yn creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r broses o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol, trwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn nodi anghenion yn fuan, rhoi system gymorth a monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir.

Bydd y canlynol yn ategu'r Ddeddf:

- rheoliadau – is-ddeddfwriaeth lle mae angen rhagor o fanylion
- Cod ADY – canllawiau statudol a gofynion gorfodol er mwyn helpu pobl a sefydliadau i weithio o fewn y gyfraith.

## 11 nod y Ddeddf

1. **Cyflwyno'r term 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'**
   Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r term newydd sef 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)' yn lle'r termau 'anghenion addysgol arbennig (AAA)' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD)'.

2. **Ystod oedran 0 hyd at 25**
   Bydd un system ddeddfwriaethol ar gyfer y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY. Bydd hyn yn lle'r ddwy system sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag AAA, a phobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag AAD.

3. **Cynllun unedig**
   Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol (y cynllun datblygu unigol (CDU)) yn lle'r amrywiaeth o gynlluniau AAA ac AAD statudol ac anstatudol cyfredol sydd ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach.

4. **Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**
   Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf fod barn dysgwyr, ynghyd â barn eu rhieni/gofalwyr, yn cael ei hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'n gwbl allweddol bod plant a phobl ifanc yn gweld y broses gynllunio fel rhywbeth sy'n eu cynnwys yn hytrach na rhywbeth sy'n digwydd iddynt.

5. **Dyheadau uchel a gwell deilliannau**
   Dylai CDU ganolbwyntio ar sicrhau darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau gweladwy, a fydd yn cyfrannu'n ystyrlon at allu'r plentyn neu'r person ifanc i gyflawni ei lawn botensial.

6. **System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro**
   Dylai'r broses o greu a diwygio CDU fod yn llawer symlach nag y mae ar hyn o bryd gyda datganiadau AAA.

7. **Rhagor o gydweithredu**
   Mae'r system newydd yn annog asiantaethau i rannu gwybodaeth a chydweithio'n well, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod y cymorth cywir yn ei le er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyflawni deilliannau cadarnhaol.

8. **Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach**
Os bydd anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn, mae'r system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf lleol bosibl.

9. **Hawliau clir a chyson i apelio**
Os na all anghytundebau ynghylch cynnwys CDU gael eu datrys yn lleol, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU (ynghyd â'u rhieni/gofalwyr yn achos plant o dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys.

10. **Cod ADY**
Bydd y Cod ADY yn darparu ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag ADY weithredu o'u mewn.

11. **System ddwyieithog**
Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ystyried a yw plentyn neu berson ifanc angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg. Os felly, rhaid nodi hyn yn y CDU a chymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau darpariaeth Gymraeg.

## 2. Datblygu'r gweithlu

Mae hon yn rhaglen datblygu sgiliau ar gyfer ymarferwyr addysg sy'n canolbwyntio ar dair lefel.

- **Datblygu sgiliau craidd** yr holl ymarferwyr er mwyn cyflenwi'r system ADY newydd. Mae'n cynnwys cyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion, elfen ganolog i'n dull newydd, ar draws pob lleoliad addysg/ysgol. Rydym wedi darparu arian grant am ddwy flynedd i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach fel y gallant feithrin sgiliau ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar draws y gweithlu.
- **Datblygu sgiliau uwch** trwy feithrin rôl cydgysylltwyr anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn disodli'r cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig cyfredol.
- **Datblygu sgiliau arbenigol** drwy gyllid i helpu hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol i leoliadau addysg/ysgolion, e.e. seicolegwyr addysg ac athrawon pobl ifanc â nam ar eu golwg neu eu clyw.

## 3. Gweithredu/cymorth pontio

Er mwyn sicrhau bod y system newydd yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ac yn llwyddiannus, byddwn yn helpu gwasanaethau i baratoi ar gyfer y newidiadau o'u blaenau a datblygu arferion gwaith agosach ar draws asiantaethau a sectorau. Mae'n cynnwys y canlynol.

- **Cyllid Arloesi ADY:** cefnogi prosiectau partneriaeth rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol; ysgolion; sefydliadau addysg bellach; darparwyr arbenigol; gwasanaethau iechyd; gwasanaethau cymdeithasol; y sector blynyddoedd cynnar; a'r trydydd sector.

- **Grŵp Gweithredu Strategol ADY:** gweithgor ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r sector addysg bellach. Gwnaeth y grŵp ystyried atebion ymarferol a rhoi cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i weithredu rhaglen trawsnewid system ADY.
- **Parodrwydd, cydymffurfiaeth, a monitro a gwerthuso effaith:** er mwyn sicrhau ein bod yn cadw llygad barcud ar y broses o weithredu'r Ddeddf, bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion/problemau yn effeithiol er budd plant a phobl ifanc, a bod arferion gorau yn cael eu nodi a'u rhannu ledled Cymru. Byddwn yn ystyried y broses weithredu fesul cam.
  - **Parodrwydd:** asesu i ba raddau mae awdurdodau lleol ac asiantau cyflenwi eraill yn barod ar gyfer y newidiadau o'u blaenau.
  - **Cydymffurfiaeth:** pa mor effeithiol maen nhw'n cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol newydd unwaith y deuant i rym.
  - **Effaith:** sut ac i ba raddau mae'r newidiadau yn ymwreiddio ac yn effeithio ar ddeilliannau i ddysgwyr.
- **Arweinwyr Trawsnewid ADY:** tîm o bump o arweinwyr trawsnewid i gynghori, cynorthwyo a herio awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflenwi eraill i baratoi ar gyfer y broses bontio â'r system ADY newydd a rheoli hynny.
- **Grantiau Trawsnewid ADY:** cyllid er mwyn helpu partneriaid cyflenwi (gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd lleol, y Tribiwnlys ac Estyn) i baratoi ar gyfer y broses bontio â'r system newydd.
- **Canllaw Gweithredu ADY:** canllaw gweithredu manwl a fydd yn egluro'r amserlenni ar gyfer cyflwyno CDU i bob cohort o ddysgwyr.

## 4. Codi ymwybyddiaeth

- Deunyddiau rhyngweithiol er mwyn helpu'r rhai sy'n rhan o'r system i ddeall y dystiolaeth ar gyfer arferion gorau, beth ellir ei ddisgwyl o ymyriadau, yr ymyriadau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol, a rôl gweithwyr proffesiynol wrth helpu i sicrhau disgwyliadau realistig a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth er mwyn paratoi i weithredu'r system ar ei newydd wedd, gyda phwyslais ar addysgu rhanddeiliaid am eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd, ac esbonio a hyrwyddo'r system a'r hawliau a gyflwynir i blant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc.

## 5. Polisi cefnogi

- Sicrhau bod y system bresennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) yn gweithredu'n ddidrafferth nes bod y system ADY newydd yn dod i rym. Wrth i ni roi'r system newydd ar waith, bydd yr agwedd hon ar y rhaglen yn canolbwyntio'n gynyddol ar gynnal parhad busnes.

## Pryd mae'n newid

Yn 2018, bydd y Cod ADY a'r rheoliadau drafft sy'n ategu'r Ddeddf yn cael eu diwygio ac yn destun ymgynghoriad. Byddant yn cael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2019 a'r gobaith yw y bydd yr holl is-ddeddfwriaeth yn ei lle erbyn diwedd 2019.

Caiff yr hyfforddiant ar weithredu'r system ei gyflwyno ddechrau 2020, a bydd disgwyl i'r system newydd fod yn weithredol o fis Medi 2020. Bydd cyfnod gweithredu o dair blynedd tan yr haf 2023, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd pob cynllun presennol yn cael ei droi'n gynllun datblygu unigol.

Am y tro bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag AAA sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnynt gan Ddeddf Addysg 1996. Mae'n rhaid iddynt hefyd barhau i ddilyn *Cod Ymarfer AAA Cymru* (2004) (gov.wales/docs/dcells/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf).

## Amserlen gweithredu ADY

- **Ionawr 2018** – Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ennill Cydsyniad Brenhinol
- **Mawrth 2018** – Apwyntio Arweinwyr Trawsnewid ADY
- **Hydref 2018** – Ymgynghoriad ar y Cod a'r rheoliadau ADY drafft
- **Rhagfyr 2019** – Cyhoeddi Cod ADY terfynol
- **Ionawr 2020** – Cyflwyno hyfforddiant gweithredu ar y Cod ADY newydd
- **Medi 2020** – Y system ADY newydd yn mynd yn fyw
- **Haf 2023** – System AAA/AAD yn dod i ben

## Rhagor o wybodaeth

### Ar-lein

Llywodraeth Cymru – www.llyw.cymru/ADY

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – www.cynulliad.cymru

### Twitter

#angheniondysguychwanegol #ADYCymru #DeddfADY

### E-bost

Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol (ADY), Llywodraeth Cymru

SENreforms@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34126 ISBN digidol 978 1 78903 541 4